

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Inclusion Service
Gwasanaeth Cynhwysiant



Datgymhwyso ac Addasu

Nichola Jones
Pennaeth Cynhwysiant ac Anabledau

Datgymhwyso ac addasu

Gall yr ysgol, lle bo hynny'n angenrheidiol, addasu neu ddatgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i drefniadau asesu. Polisi Cyngor Sir Penfro yw gwneud hyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae ysgolion yn gwneud pob ymdrech i ddiwallu anghenion dysgu'r holl ddisgyblion, heb droi at ddatgymhwyso neu addasu. Bydd yr ysgol yn cyflawni hyn drwy ragor o wahaniaethu gwaith y disgybl, neu drwy ddarparu adnoddau dysgu ychwanegol. Lle bo hynny'n angenrheidiol, bydd yr ysgol hefyd yn cefnogi dysgu drwy ddefnyddio arbenigwyr allanol priodol. Mewn achosion o'r fath, mae athrawon a chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cydweithio'n agos â'r arbenigwyr hyn i gefnogi'r disgybl.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl i'r ysgol benderfynu mai addasu neu ddatgymhwyso yw'r peth mwyaf priodol i'w wneud. Byddai'r ysgol yn ymgynghori'n fanwl gyda rhieni cyn gwneud hyn. Byddai'r llywodraethwr sy'n gyfrifol am anghenion addysg arbennig hefyd yn cyfranogi'n llawn yn y broses hon. Byddai'r ysgol yn gwneud pob ymdrech posibl i ddarparu'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol o fewn ei hadnoddau cyn ystyried cymryd camau o'r fath.

Pe bai'r ysgol yn penderfynu mai addasu neu ddatgymhwyso yw'r cam gorau, byddai'n gwneud hynny drwy ddilyn y canllawiau a geir yn y ddogfen 'Trefniadau Asesu Statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3' sydd ar gael yn:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/181025-statutory-assessment-arrangements-cy.pdf>

Y broses o ddatgymhwyso

Mae'n bosibl i'r Ysgol gael mwy o gyngor drwy drafod y sefyllfa yng nghyfarfod y Tîm o Amgylch y Rhiant, y Disgybl a'r Lleoliad (TAPPAS). Bydd yn rhaid i'r Panel Cynhwysiant ffurfioli pob cais am ddatgymhwyso. Dylid defnyddio'r Ffurflen Gyfeirio Cynhwysiant i ddilyn y broses hon. Yn y lle cyntaf, byddech yn llenwi Rhan 1 a 2 o'r ffurflen sydd ynghlwm a darparu tystiolaeth ategol a allai fod wedi'i chytuno yn ystod trafodaethau TAPPAS.